# Teitl y Swydd: Swyddog Ardal Wledig

**Disgrifiad Swydd:**

## 1. Cefndir

1.1 Sefydlwyd Menter Iaith Conwy ym mis Medi 2003 yn dilyn diddymu Menter Iaith Dinbych -Conwy a fu mewn bodolaeth ers 1998. Mae dalgylch y Fenter yn cydweddu â ffiniau'r Cyngor Sir sydd yn ymestyn o'r glannau i berfeddion cefn gwlad.

1.2 Prif nod y Fenter yw hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ffiniau Sir Conwy. Cyflawnir hyn drwy'r amcanion isod:-

- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg drwy ymestyn y cyfleoedd sydd ar gael i'w defnyddio ym mhob agwedd o fywyd
- Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr ddysgu'r Gymraeg ac i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth ohoni
- Sicrhau fod yr holl ystod o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac addysgiadol yn cael eu cynnal yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Cynyddu'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y sir o 5% bob 10 blynedd i gyd-fynd â Strategaeth Iaith Genedlaethol y Cynulliad - 'Iaith Fyw : Iaith Byw'
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith trigolion y sir a chynyddu ei phroffil cyhoeddus.

1.3 Mae gweithgareddau'r Fenter yn cynnwys:

- Hybu'r Gymraeg yn y sector preifat
- Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Hwyluso gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac addysgiadol i bobl o bob oed
- Darparu cyfleoedd hamdden cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifainc
- Cynyddu'r defnydd o'r iaith a chodi hyder siaradwyr Cymraeg
- Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a hyrwyddo cynlluniau i gymhathu mewnfudwyr
- Darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata i godi proffil yr iaith

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni newydd a darpar rieni o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref
- Hyrwyddo addysg Gymraeg
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus ar gynlluniau strategol sy'n effeithio ar gyflwr yr iaith
- Cyfrannu at strategaethau adfywio cymunedol ac economaidd
- Cryfhau strwythur economaidd ac ieithyddol yr ardal drwy sefydlu busnesau cymunedol dan adain y Fenter
- Codi proffil y Fenter yn y wasg a'r cyfryngau
- Cydweithio â Mentrau Iaith eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn rhannu arferion da

## 2. Atebolrwydd:

2.1 Bydd y Swyddog yn atebol o ddydd i ddydd i Gyfarwyddwr Datblygu'r Fenter a thrwyddo i Bwyllgor Rheoli Menter Iaith Conwy. Er y bydd y cyflog yn cael ei weinyddu gan Adran Gyllid Cyngor Sir Ddinbych, Pwyllgor Rheoli'r Fenter fydd y cyflogwyr.

## 3. Prif Gyfrifoldebau'r Swydd:

- Codi ymwybyddiaeth trigolion Conwy wledig o'u treftadaeth ieithyddol a diwylliannol drwy ystod o ddigwyddiadau celf
- Adnabod cyfleoedd o fewn Conwy wledig i ddatblygu cynlluniau treftadaeth iaith a diwylliant
- Cynorthwyo 4, ac o bosib mwy, o bwyllgorau ardal i gynnal gweithgareddau sy'n hybu'r Gymraeg yn yr ardal
- Codi lefel ymwybyddiaeth o dreftadaeth iaith a diwylliant ymhlith plant â phobl ifanc
- Cydweithio gyda theuluoedd er hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd a chodi'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y teulu a thu allan
- Cydweithio gyda phartneriaid Menter Iaith Conwy i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Datblygu hyfedredd i sicrhau ffynonellau nawdd i barhau â'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod ariannu presennol
- Datblygu hyfedredd i baratoi ceisiadau am nawdd ar gyfer y prosiectau unigol fydd yn deillio o'r cynllun. Rhannu'r arfer yma gydag aelodau o'r mentrau cymunedol er mwyn iddynt allu parhau â phrosiectau wedi diwedd y cynllun penodol yma.
- Cynorthwyo pwyllgor Llanast Llanrwst i drefnu'r ŵyl a sicrhau cyllid ar gyfer cynnal yr ŵyl.
- Cynorthwyo Swyddog Datblygu'r Urdd i sicrhau fod cyfleoedd cynyddol i blant a phobl ifanc gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau'r ysgol
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith bobl ifanc a chynnal adrannau/uwch-adrannau ac aelwydydd yr Urdd
- Cynorthwyo mewn cystadlaethau chwaraeon ac mewn Eisteddfodau pan fo angen

- Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid trwy fudiad yr Urdd

O bryd i'w gilydd bydd angen i chi ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol i hyn yn unol â gofynion cyffredinol y swydd.

## 3. Sgiliau a Gwybodaeth Angenrheidiol:

- Safon dda o addysg, yn ddymunol isafswm o 5 TGAU Gradd A-C neu gyfwerth
- NVQ lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol mewn Gwaith Ieuenctid
- Diddordeb byw yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol ymysg trigolion Conwy wledig
- Y gallu i gyflwyno gwybodaeth mewn modd diddorol a difyr
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol
- Y gallu i weithio gyda phlant a phobl ifainc
- Yn berson trefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da
- Yn rhugl ddwyieithog - ar lafar ac ysgrifenedig
- Yn meddu ar sgiliau technoleg gwybodaeth dda
- Y gallu i yrru car yn hanfodol
- Adnabyddiaeth o'r ardal yn fanteisiol
- Byddai profiad o ddenu cyllid yn fanteisiol

## 4. Amodau a Thelerau:

4.1 Cynigir cytundeb hyd Ragfyr 2013 i gychwyn. Efo cyfnod prawf o 6 mis cychwynnol. Bydd cynaladwyedd hir dymor y swydd yn ddibynnol ar sicrhau cyllid digonol ac ar adolygiadau perfformiad boddhaol.

4.2 Lleolir y swydd yn swyddfa Menter Iaith Conwy yn Llanrwst.

4.3 Oriau gwaith arferol y swyddfa yw 9.00 a.m. - 5.00 p.m. (37 awr yr wythnos), ond oherwydd natur y swydd disgwylir i'r sawl a benodir weithio'n aml gyda'r hwyr ac ar benwythnosau. Cynigir amser *in lieu* yn lle hynny drwy gytundeb â'r Cyfarwyddwr Datblygu.

4.4 Cynigir 24 diwrnod o wyliau yn ystod y flwyddyn yn ychwanegol at wyliau statudol – bydd hyn yn codi i 29 diwrnod ar ôl pum mlynedd o wasanaeth.

Ffôn – (01492) 642357

E-bost – eirian@menteriaithconwy.cymru247.net